

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 5: Adran 68

Cytundebau Taliadau Gohiriedig

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch adran 68 o'r Ddeddf. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

Dolenni allweddol:

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1841/pdfs/wsi_20151841_mi.pdf

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016

Cod Ymarfer ar Rannau 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part4-5cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan rannau 4 a 5 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **adran 68** yn darparu'r gallu i wneud rheoliadau fel bod awdurdod lleol yn gallu ymrwymo i gytundeb ar daliadau gohiriedig â pherson y mae'n ofynnol iddo dalu ffi o dan adran 59 o'r Ddeddf am y gofal a'r cymorth y bydd yn eu derbyn, a bod yr awdurdod lleol yn

gosod ffi yn erbyn buddiant y person yn ei gartref i sicrhau bod y ffi yn cael ei dalu.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r rheoliadau'n nodi ei bod yn ofynnol i awdurdod lleol ymrwymo i gytundeb ar daliadau gohiriedig os yw'r person a'i eiddo yn bodloni rhai amodau penodedig. Yn bennaf, mae'r rhain yn cyfeirio at berson sydd ag eiddo cymwys ond bod y mathau eraill o'i gyfalaf o dan lefel y terfyn cyfalaf ac nad oes ganddo ddigon o incwm i dalu ei gostau gofal yn llawn.

Beth mae'n ei wneud?

Mae cytundeb ar daliadau gohiriedig yn galluogi awdurdod lleol i dalu costau llawn gofal preswyl person drwy osod ffi ar ei eiddo fel gwarant yn erbyn gohirio taliadau. Gan nad yw eiddo yn cael ei ystyried wrth gynnal asesiad ariannol ar gyfer ffi am ofal a chymorth amhreswyl, mae taliadau gohiriedig ond yn berthnasol i ofal preswyl. Gall cytundeb bara dros gyfnod arhosiad person mewn cartref gofal, am gyfnod byrrach o'i ddewis, neu hyd nes ei fod yn penderfynu gwerthu ei eiddo i dalu am ei ofal preswyl.

Diben cyffredinol taliadau gohiriedig yw sicrhau bod person sy'n mynd i mewn i gartref gofal ac sydd ag eiddo sydd wedi'i ystyried yn ei asesiad ariannol er mwyn sefydlu cost y gofal yn gallu arfer dewis ynglŷn â phryd neu a yw am werthu ei eiddo i dalu'r ffi. Diben taliad gohiriedig yw rhoi amser i berson osod trefn ar ei faterion ariannol, neu amser i drefnu gwerthu ei eiddo

os yw am wneud hynny, gan roi hyblygrwydd iddo ynglŷn â phryd y bydd yn gwerthu'r eiddo.

Mae'r rheoliadau yn pennu'r amodau y mae'n rhaid i berson a'i eiddo eu bodloni i fod yn gymwys ar gyfer cytundeb ar daliadau gohiriedig, lefel y taliadau gohiriedig y gall awdurdod lleol ymrwymo iddynt a'r trefniadau yn ymwneud â chostau gweinyddol a'r llog y gall awdurdod lleol ei godi am sefydlu a gweithredu cytundeb ar daliadau gohiriedig.

Cydweddu â'r Ddeddf

Mae'r newid rheoliadol yn cadw'r ddarpariaeth bresennol o roi hyblygrwydd i berson benderfynu a yw am werthu ei eiddo a phryd y mae am ei werthu ar ôl symud i ofal preswyl yn barhaol. Mae'r rheoliadau hefyd yn diweddarau'r ddarpariaeth hon i sicrhau ei bod yn cydweddu'n well ag ethos y Ddeddf.

Mae cytundebau ar daliadau gohiriedig yn ceisio hyrwyddo rhagor o ddewis a rheolaeth ar gyfer person sy'n ymrwymo i ofal preswyl ar adeg sy'n gallu peri pryder iddo.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Mae'r darpariaethau newydd yn cynnwys yr un egwyddorion a gofynion allweddol ag sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer cytundebau presennol ar daliadau gohiriedig. Mae'r darpariaethau yn gwneud y trefniadau hyn yn eglur ac yn gyson o safbwynt eu meini prawf cymhwysedd a lefel y taliadau gohiriedig posibl. Hefyd, maent yn sefydlu fframwaith clir sy'n sylfaen i awdurdod lleol bennu a gweithredu cytundeb.

Mae'r rheoliadau yn cyflwyno darpariaeth newydd fel bod awdurdod lleol yn gallu gosod lefel log isel ar gyfer cytundebau a ffioedd ar gyfer unrhyw gostau gweinyddol cysylltiedig. Y nod wrth wneud hyn yw helpu i wneud cytundebau yn fwy niwtral o ran cost ar gyfer awdurdodau.

Os yw incwm asesedig person yn fwy na lefel benodol mewn unrhyw wythnos, mae'r rheoliadau yn caniatáu i awdurdod lleol beidio â gohirio swm sy'n ddyledus ar gyfer yr wythnos honno. Y rheswm am hyn yw y dylai person fod

â digon o incwm i dalu am ei ofal preswyl heb orfod gohirio ei daliadau.

Rhagor o wybodaeth

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

<http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?lId=5664>

Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=cy>

Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru: <http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>